OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1273

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

## RHAN 13

CYMORTH I FYFYRWYR ÔL-RADDEDIG SYDD AG ANABLEDDAU

### Cyfnod cymhwystra

**94.**—(1) Mae myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn cadw ei statws fel myfyriwr ôl-raddedig cymwys hyd oni therfynir y statws yn unol â'r rheoliad hwn a rheoliad 92.

(2) Y cyfnod y bydd myfyriwr ôl-raddedig cymwys yn cadw'r statws yw'r "cyfnod cymhwystra" ("*period of eligibility*").

(3) Yn ddarostyngedig i'r paragraffau canlynol a rheoliad 92, mae'r cyfnod cymhwystra'n dod i ben ar ddiwedd y cyfnod y mae ei angen fel arfer i gwblhau'r cwrs ôl-radd dynodedig.

(4) Mae'r cyfnod cymhwystra yn terfynu pan fydd y myfyriwr ôl-raddedig cymwys —

(a) yn tynnu'n ôl o'i gwrs ôl-radd dynodedig o dan amgylchiadau lle nad yw Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo neu lle na fyddant yn trosglwyddo ei statws fel myfyriwr ôl—raddedig cymwys i gwrs arall o dan reoliad 95; neu

(b) yn cefnu ar ei gwrs ôl-radd dynodedig neu'n cael ei ddiarddel oddi arno.

(5) Caiff Gweinidogion Cymru derfynu'r cyfnod cymhwystra os yw'r myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi dangos drwy ei ymddygiad nad yw'n addas i gael cymorth.

(6) Os yw Gweinidogion Cymru wedi'u bodloni bod myfyriwr ôl-raddedig cymwys wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i roi gwybodaeth o dan y Rhan hon neu ei fod wedi rhoi gwybodaeth sy'n anghywir o ran manylyn perthnasol, caiff Gweinidogion Cymru gymryd unrhyw rai o'r camau canlynol y maent credu eu bod yn briodol o dan yr amgylchiadau —

(a) terfynu'r cyfnod cymhwystra;

(b) penderfynu nad oes gan y myfyriwr hawl mwyach i gael grant neu unrhyw swm penodol o grant;

(c) trin unrhyw gymorth a dalwyd i'r myfyriwr fel gordaliad y caniateir ei adennill o dan reoliad 100.

(7) Pan fo'r cyfnod cymhwystra'n terfynu ar y dyddiad y daw'r cyfnod sy'n ofynnol fel arfer i gwblhau'r cwrs ôl-radd dynodedig i ben neu cyn y dyddiad hwnnw, caiff Gweinidogion Cymru, ar unrhyw adeg, adnewyddu'r cyfnod cymhwystra am y cyfryw gyfnodau ag y byddant yn penderfynu arnynt.